



Ordinhad 4 Yr Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a'r Dirprwy Is- Gangellorion

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 4

YR UWCH DDIRPRWY IS-GANGELLORION A'R DIRPRWY IS-GANGELLORION

1. Penodir Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor. Pennir nifer yr Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a'r Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor yn ôl argymhelliad yr Is-Ganghellor.
2. Dim ond i rolau arweinyddiaeth academaidd y rhoddir teitlau Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor a Dirprwy Is-Ganghellor.
3. Swyddogaethau Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion

Bydd yr Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a'r Dirprwy Is-Gangellorion yn cyflawni pa ddyletswyddau bynnag o eiddo'r Is-Ganghellor a ddirprwyir iddynt gan yr Is-Ganghellor a gall ystod eu cyfrifoldebau gael eu newid gan yr Is-Ganghellor o bryd i'w gilydd.

4. Penodi Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion
 1. Penodir Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor, fel arfer yn dilyn argymhelliad gan bwyllgor dewis ac iddo'r aelodau canlynol:
 1. Yr Is-Ganghellor;
 2. Dau aelod annibynnol o'r Cyngor a benodir gan y Cyngor;
 3. Un aelod o'r Senedd (gyda'r gallu i benodi aelod wrth gefn);
 4. [Mewn achosion lle mae swyddi wedi cael eu hysbysebu yn allanol] Cynrychiolydd o statws priodol o Sefydliad Addysg Uwch arall.
 2. Yr Is-Ganghellor fydd yn Cadeirio cyfarfodydd o'r pwyllgor dewis.
 3. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.
 4. Bydd gan y pwyllgor dewis y pŵer i bennu ei ddull gweithredu.
 5. Cworwm cyfarfodydd y pwyllgor dewis fydd tri aelod.
5. Tymor ac Amodau'r Swydd
 1. Hyd at bum mlynedd fydd tymor cyntaf Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion yn y swydd (cyfnod prawf fydd y flwyddyn gyntaf).
 2. Gall yr Is-Ganghellor argymhell i'r Cyngor fod tymor Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor yn y swydd yn cael ei estyn, ar unrhyw adeg yn ystod eu tymor, hyd at y tymor hiraf posib, sef wyth blynedd.
 3. Yn unol ag argymhelliad yr Is-Ganghellor, gall y Cyngor, wrth benodi Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor, wneud darpariaeth fel mai aelod o'r staff academaidd yn un o unedau academaidd y Brifysgol yw prif swyddogaeth gyflogedig deiliad y swydd honno, ac y gall ddychwelyd i'r brif swyddogaeth honno ar ôl i'r tymor fel Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor ddod i ben.

4. Gall y Cyngor neu ddaliad y swydd ei hun ddod â'r gyflogaeth fel Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor i ben yn unol â darpariaethau'r contract cyflogaeth a/neu bolisiau perthnasol y Brifysgol sydd mewn grym ar y pryd.
5. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Ordinhad hwn, ac yn unol ag argymhelliad yr Is-Ganghellor, caiff y Cyngor benodi Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a Dirprwy Is-Gangellorion ar unrhyw amodau a thelerau eraill y bydd yn eu gweld yn addas.